

12. Cwynion a chwythu'r chwiban

Delio â chwynion

1. Mae Adran 29 o Ddeddf Addysg 2002 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n sefydlu gweithdrefnau mewn perthynas â chwynion yn ymwneud ag ysgol a gynhelir yng Nghymru, neu gyfleusterau neu wasanaethau penodol a ddarperir gan gorff llywodraethu ysgol o'r fath.
2. Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru (ac eithrio ysgolion meithrin a gynhelir) fabwysiadu a rhoi cyhoeddusrwydd i'r gweithdrefnau a nodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau o'r fath. Rhaid i'r corff llywodraethu roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru.
3. Dylai ysgolion annog rhieni, staff, disgyblion ac aelodau o'r gymuned i ddatrys cwynion ac anghydfodau'n gyflym drwy siarad â'r person priodol yn yr ysgol. Yn y lle cyntaf, dylai'r athro dosbarth ddelio â'r gŵyn. Wedyn, os oes angen, dylid mynd â'r gŵyn at y pennaeth. Bydd hyn yn datrys y rhan fwyaf o bryderon a chwynion.
4. Os na all y pennaeth ddatrys y gŵyn, neu os yw'r gŵyn am y pennaeth, gall pwyllgor a gynullir gan y corff llywodraethu ei hystyried.

Canllawiau

5. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gwynion, sef [Gweithdrefnau cwyno ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion](#), er mwyn helpu ysgolion i sefydlu gweithdrefnau cwyno effeithiol.
6. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi cyngor i gyrff llywodraethu ysgolion ynghylch datblygu a chyhoeddi gweithdrefnau i ddelio â chwynion gan rieni, aelodau o'r staff, aelodau o'r gymuned leol, llywodraethwyr disgyblion ac eraill. Mae'r canllawiau'n diffinio cwyn fel 'mynegiant o anfonlonrwydd mewn perthynas â'r ysgol, llywodraethwr neu aelod o'i staff sy'n gofyn am ymateb gan yr ysgol'. Os bydd cwyn yn codi materion ynghylch gallu staff, cwynion staff, disgyblaeth staff neu amddiffyn plant, yna rhaid cymryd camau o dan y gweithdrefnau hynny a dylent gael blaenoriaeth. Ni ddylai'r weithdrefn gwyno gymryd lle'r gweithdrefnau eraill hynny. Ceir gweithdrefnau ar wahân hefyd i ddelio â chwynion yn ymwneud â derbyniadau i ysgolion neu waharddiadau, darpariaeth anghenion addysgol arbennig, cynigion trefniadaeth ysgolion, addoli crefyddol a chyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r canllawiau'n cynnwys:
 - gweithdrefn gwyno enghreifftiol;
 - ffurflenni cwyno enghreifftiol;
 - cyngor ar ddelio â chwynion am fwlio.
7. Rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion roi sylw i'r canllawiau ac ystyried mabwysiadu'r weithdrefn gwyno enghreifftiol. Mae'r weithdrefn gwyno enghreifftiol yn argymhell proses tri cham lle mae cyfathrebu'n agored yn allweddol ar gyfer datrys materion yn effeithiol ac yn effeithlon.

8. Mae rôl Llywodraeth Cymru ym mhroses gwyno ysgolion yn gyfyngedig i gyfeirio unigolion at weithdrefnau yr ysgol ei hun neu at yr awdurdod lleol am gyngor pellach.

Chwythu'r chwiban

9. Mae chwythu'r chwiban yn ffordd i unigolyn drafod pryderon drafod pryderon gyda thrydydd parti. Yn aml, ei gyflogwr fydd hwn.

10. Mewn ysgol a gynhelir, dylai pob aelod o staff deimlo'u bod yn gallu mynegi pryder am ymddygiad yn yr ysgol a allai fod yn anghyfreithlon, yn llwgr, yn amhriodol, yn beryglus neu'n anfoesol neu a allai fod yn achos o gamymddwyn. Mae'n bwysig eich bod yn gallu tynnu sylw at hyn heb ofni erledigaeth a'ch bod yn hyderus y bydd y pryderon yn cael eu trin o ddifri.

11. Dylai cyrff llywodraethu geisio sefydlu diwylliant yn eu hysgol lle gall aelodau staff fynegi eu pryderon, yn hyderus y bydd pryderon o'r fath yn cael eu cymryd o ddifri, yr ymchwilir iddynt ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd mewn ymateb. Ni ddylai'r ffaith bod yna weithdrefn chwythu'r chwiban mewn ysgol leihau mewn unrhyw fodd ymrwymiad corff llywodraethu i feithrin hinsawdd agored cyffredinol ac o gydweithrediad o fewn yr ysgol, lle dylai fod rhyddid i holl staff yr ysgol drafod anawsterau a phroblemau o bob math gyda'r rheolwyr. Mae yr un mor bwysig bod cyrff llywodraethu'n delio â phryderon a godir gan unigolion y tu allan i gylch staff yr ysgol, hy rhieni, disgyblion, llywodraethwyr ac ati, mewn ffordd deg ac effeithiol o dan ei weithdrefnau cwyno neu weithdrefnau perthnasol eraill.

12. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru [Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Enghreifftiol](#) yn rhoi arweiniad i gyrff llywodraethu ysgolion ar:

- y cyd-destun cyfreithiol;
- beth a olygir wrth chwythu'r chwiban;
- bwriad, hyd a lled a chyd-destun gweithdrefn chwythu'r chwiban, gan gynnwys y ffordd orau o ddod â chwyn i sylw rhywun a delio â hi;
- polisi chwythu chwiban enghreifftiol.

13. Mae gweithwyr sy'n chwythu'r chwiban yn cael eu gwarchod yn statudol gan Ran IVA o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (a fewnosodir gan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998), sy'n eu gwarchod rhag erledigaeth os ydynt yn datgelu gwybodaeth a warchodir o fewn ystyr Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996.

14. Mater i'r cyflogwr yw sefydlu gweithdrefn chwythu'r chwiban. O ran ysgolion cymunedol, ysgolion cymunedol arbennig, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr, ysgolion sefydledig ac ysgolion sefydledig arbennig gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir, mater i'r corff llywodraethu yw hyn.

Deddfwriaeth

[Deddf Addysg 2002](#)

[Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir \(Cymru\) 2006](#)

[Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996](#)

[Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998](#)

Canllawiau

<https://llyw.cymru/chwythur-chwiban-mewn-ysgolion-canllawiau-i-lywodraethwyr>

Cylchlythyr 036/2007 Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Enghreifftiol - Canllawiau i Gyrff Llywodraethu Ysgolion

Dogfennau perthnasol

[Archwiliad Clywch](#) – Adroddiad ar Archwiliad Comisiynydd Plant Cymru o honiadau o gam-drin plant yn rhywiol mewn ysgolion, Mehefin 2004